

## Cydnabod a diolch am gyfraniad Elfed

### Lansio tair cyfrol newydd o waith y diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts

Dydd Sadwrn, 18 Medi, daeth cynulleidfa deilwng o gynrychiolwyr wedi eu gwahodd gan y teulu ynghyd i gapel Mynydd Seion, Abergele, ar gyfer cyfarfod i gofio a gwerthfawrogi cyfraniad nodedig y Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts i fywyd ysbrydol Cymru. Yng nghwmni ei deulu a'i ffrindiau, lansiodd tair cyfrol newydd o'i waith, a chafwyd cyfle i wrando ar ei eiriau, mewn gweddi a myfyrdod.

Yn dilyn gair o groeso gan y Parch Ifor ap Gwilym, cyn-weinidog Mynydd Seion (a gweinidog Elfed tra bu yno'n aelod), cafwyd cyflwyniad gan y Parch Aled Davies yn crynhoi ei hanes fel awdur

a golygydd dros gyfnod o hanner can mlynedd. Cyfeiriodd ato fel cyfrannydd cyson i gylchgrawn *Cristion a'r Cymro* yn ogystal ag awdur nifer helaeth o gyfrolau. Cyfeiriwyd hefyd at ei ddawn arbennig i lunio gweddïau a oedd bob amser yn dod o'r galon ac yn grefftus eu trefn a'u cynnwys. Roedd hefyd yn ddiwinydd blaengar a lwyddai i siarad mewn iaith ddealladwy a chlir. Cyfeiriwyd yn arbennig at y saith cyfrol yn y gyfres 'Dehongli ...' a fu'n faes llafur i ddsbarthiadau oedolion ysgolion Sul dros gyfnod o flynyddoedd.

Yna, aed ymlaen i lansio'r cyfrolau'n swyddogol, a braint i Gyhoeddiadau'r Gair oedd cael cyflwyno set o dri llyfr i'w weddw, Dr Eiddwen Jones, ac i'w blant, Jonathan Nefydd ac Elen Mai. Cyflwynwyd copi hefyd i Trefor Lewis a fu'n casglu ac yn golygu'r gweddïau, a derbyniwyd

ymddiheuriad gan y Parch Olaf a Helen Davies, a fu wrthi'n casglu ac yn golygu'r gyfrol o fyfyrddodau.

### Tair Cyfrol


*Gwerth y Funud Dawel* oedd y gyntaf i gael sylw, ac wedi lansio'r gyfrol, cafwyd darlenniadau'n cael eu cyflwyno gan dri aelod o'r teulu, sef Jonathan Nefydd yn darllen 'Deinosoriaid Patagonia', Elen Mai Nefydd yn darllen 'Malala Yousafzai' a Dylan Rhys yn darllen 'Hollywood yn dod i Rhyll'.



Y rhai a gyfrannodd at lansio'r llyfrau, gan gynnwys nifer o deulu'r diweddar Elfed ap Nefydd Roberts




Trefor Lewis, Brian Huw Jones, Aled Davies, Dr Eiddwen Jones ac Ifor ap Gwilym



Symudwyd ymlaen i lansio *Cymer fy Munudau*, sef casgliad cyflawn o'r holl weddïau a gyhoeddwyd gan Elfed ei hun dros gyfnod o 50 mlynedd. Dyma weddïau a ysgrifennwyd ganddo'n bersonol, a gwelir dawn y crefftwr gofalus ym mhob un ohonynt. Cyfeiriwyd hefyd at yr ysgrif gyfoethog ganddo ar ddechrau'r gyfrol, sef 'Y gelfyddyd o weddio'. Yn dilyn hyn, braint oedd clywed ei wyresau'n darllen gweddïau eu taid. Diolch i Holly a Lili Nefydd am rannu gweddi 'Addoli Duw' a [\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)


**Cydnabod a diolch am gyfraniad Elfed***(parhad o dudalen 1)*

Gwen Nefydd am rannu gweddi'n dwyn y teitl 'Ysbryd diolchgar'. Hefyd, cafwyd gweddïau o'r casgliad yn cael eu hoffrymu gan Trefor Lewis a Brian Huw Jones.



Eitem hyfryd arall oedd clywed Siriol Elin yn canu un o hoff ganeuon Elfed, sef 'Yn dy gwmmi Di' gan Robat Arwyn.

Y drydedd gyfrol i gael ei lansio oedd *Derbyn a Dilyn Iesu*, sef cwrs ar gyfer cymunwyr ifanc / dosbarth derbyn. Dyma adnodd ar gyfer gweinidogion ac arweinwyr sy'n llawlyfr hwylus i baratoi pobl ifanc ar gyfer dod yn aelodau cyflawn o eglwys Iesu Grist. Mae'r themâu a geir yn y gyfrol yn cynnwys: Pam cael eich



derbyn?, Pam credu yn Nuw?, Pwy ydi Iesu Grist?, Y Groes a'r Atgyfodiad, Pwy ydi'r Ysbryd Glân?, Pam yr Eglwys?, Ydi'r Beibl yn wir?, Ydi gweddïo'n bwysig?, Addoli a'r Sacramentau, a Byw'r bywyd Cristnogol.

Yn ei ragair i'r gyfrol, meddai Elfed: 'Tasg eithriadol bwysig, ac eto tasg hynod anodd, yw cynnal Dosbarth Derbyn neu Ddosbarth Cymunwyr Ifanc. Amcan dosbarth yw cynorthwyo rhai sydd wedi dod i oed i benderfynu drostynt eu hunain a ydynt yn dymuno dod yn aelodau cyflawn o'r Eglwys ai peidio. Hwy eu hunain sydd i benderfynu a ydynt yn barod i wneud proffes o ffydd yn Iesu Grist a dod yn rhan lawn o deulu'r ffydd, nid eu rhieni na neb arall o'r teulu sydd i benderfynu drostynt!' Mae'n gyfrol hwylus, ac eto'n un hawdd iawn troi ati. Diolchwyd am lafur Elfed ar

hyd y blynyddoedd yn paratoi'r cyfrolau pwysig hyn.

Yn dilyn hyn, croesawyd Dr Eiddwen Jones, gweddï Elfed ymlaen i gyflwyno gair byr o ddiolch am fywyd a gwaith Elfed. Diweddwyd y cyfarfod gan weinidog newydd yr eglwys, y Parch Brian Huw Jones, cyn i bawb fynd trwodd i'r festri i gael paned a chyfle i brynu'r llyfrau.

Gweithred arall y llwyddwyd i'w chyflawni yn ystod y cyfarfod, a hynny ar ran *Cenn@d*, oedd cyflwyno copi o gyfrol myfyrdodau Elfed i Mr John Eric Hughes, fel gwobr am ddod yn gyntaf am gyfansoddi emyn yn yr Eisteddfod Rithiol a gynhaliwyd gennym fis Awst eleni. Mae copiau hefyd ar y ffordd i'r Wyddgrug a Chaerdydd ar gyfer yr enillwyr eraill.



Mae Coleg Trefeca yn falch o gynnig Gwyliau Teuluol dros Wyliau Ysgolion Hanner Tymor yr Hydref (25/10 hyd 31/10/2021). Estynnir gwahoddiad i rieni a'u plant i fwynhau Trefeca, Bannau Brycheiniog a'r holl weithgareddau addas i deuluoedd sydd gerllaw. Gellir hefyd treulio'r amser yn mwynhau gerddi hyfryd Trefeca yn yr awyr iach a chwarae gemau pêl, badminton a chroce!

Cynigir 'Llety Ystafell yn Unig' ar gyfer hyd at 2 oedolyn a 2 blentyn am £40 y noson. Pe byddech am ddefnydd o'r llety ar eich cyfer chi a'ch teulu'n unig yn ystod Gwyliau Ysgol Hanner Tymor yr Hydref 2021, mae'r gost yn dechrau o £140 y noson. Cei'r mynediad i'r llety o 3.00 o gloch prynhawn Llun 25 Hydref hyd at 10.00 bore Gwener 31 Hydref. Mae'r cynnig arbennig hwn ar gael yn unig ar gyfer gweinidogion, Gweithwyr, Blaenoriaid ac Aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Mae pob ystafell wely ag ystafell ymolchi a bydd gennych ddefnydd o gegin fechan yn y bloc llety sy'n cynnig cyfleusterau gwneud te/coffi, popty micro-don, peiriant tostio ac offer barbeciw. Cynigir Wi-Fi am ddim yn y bloc llety. Bydd y Capel Bach yn agored ar gyfer gweddi bersonol.

Caniateir o ddydd Mercher 29 Hydref mynediad i'r lolfa, yr ystafell deledu a'r Amgueddfa / Arddangosfa. Os am archebu llety, anfonwch e-bost at Mair a Richard [coleg.trefeca@ebpcw.cymru](mailto:coleg.trefeca@ebpcw.cymru) <mailto:coleg.trefeca@ebpcw.cymru> neu ffoniwch 01874 711423. Mwynhewch eich gwyliau yng Ngholeg Trefeca.



## Malala Yousafzai

Â siôl dros ei phen, gwên ar ei hwyneb a'i llaw yn codi mewn diolch a ffarwél, aeth Malala Yousafzai allan o Ysbyty'r Frenhines Elizabeth ym Mirmingham ar ôl derbyn llawdriniaeth arbenigol wedi iddi gael ei saethu yn ei phen gan y Taliban ym Mhacistan. A hithau ddim ond yn bymtheg oed, ei throedd oedd iddi ymgyrchu dros addysg i ferched.



Mae'n amhosibl i ni ddeall agwedd mor gul a gormesol sy'n barod i ladd merched ifanc yn hytrach na chaniatáu iddynt fynd i'r ysgol. Ddiwrnod ynghynt cyhoeddwyd bod gostyngiad o dros 11% yn nifer y rhai yng Nghymru sy'n ceisio lle mewn prifysgolion, a hynny am fod y costau'n rhy uchel. Ond mae addysg yn hawl dynol sylfaenol gan fod ein twf a'n datblygiad fel pobl yn dibynnu ar gael ein dysgu, ar dderbyn gwybodaeth a'n helpu i ddeall y byd o'n cwmpas.

Mae stiwdio'r BBC yma yn Wrecsam yn un o adeiladau Prifysgol Glyndŵr. Arwyddair y Brifysgol yw 'Hyder trwy Addysg'. Magu hyder a wnawn wrth ddysgu – tyfu ac aeddfedu ac ymgyrraedd at ein potensial fel bodau dynol. Wrth gwrs, dydy addysg ddim yn digwydd mewn ysgol a choleg yn unig.

Mae'r addysg a gawn yn ein cartrefi ac o fewn ein teuluoedd, lle dysgwn ni foesgarwch, chwaeth a gwerthoedd moesol, yn rhan greiddiol o'n haddysg. Yna mae'r addysg gawn ni yn ysgol profiad wrth inni ddysgu dygymod â phrofiadau amrywiol bywyd – y melys a'r chwerw. Mae ysgol ffydd wedyn, lle down i amgyffred yr ysbrydol, i ddysgu gweddio ac adnabod Duw.

Yn wahanol i addysg ffurfiol, dyma ysgolion yr ydym ni'n ddisgyblion ynndynt ar hyd ein hoes. Cychwyn ar antur dysg y mae Malala. Gobeithio y caiff hi a'i ffrindiau ym Mhacistan, a ninnau gyda nhw, y rhyddid i ddal ati i ddysgu ac i dyfu mewn deall a hyder.

10 Ionawr 2013

Un o fyfyrnodau'r gyfrol *Gwerth y Funud Dawel*, hanes Malala Yousafzai, a ddarlledwyd yn wreiddiol ar 10 Ionawr 2013. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair; 328 tud, pris £12.99. Mae'r gyfrol ar gael yn y siopau erbyn hyn.

## Ymbil dros y byd

Arglwydd ein Duw,  
yr wyt ti wedi'n dysgu i weddio dros bawb;  
gwrando ni'n awr yn ein hymbiliau dros y byd  
a thros bawb mewn angen.

Gweddïwn dros holl genhedloedd y ddaear  
a thros deulu dyn ym mhob man:  
Rho heddwch rhwng pobloedd  
ac arwain y byd o afael gormes ac ysbryd rhyfelgar.

Gweddïwn dros ein gwlad,  
a thros bawb sydd yn arwain ac yn llywodraethu:  
Rho iddynt oleuni a doethineb  
i ddefnyddio'u doniau er lles cymdeithas.

Gweddïwn dros ein teuluoedd a'n cartrefi,  
dros ein hanwyliaid a'n ffrindiau oll:  
Rho di dy fendith iddynt a chysgoda drostynt.

Gweddïwn dros y claf, y gwan a'r amddifad,  
yn enwedig y rhai y gwyddom ni amdanynt:  
Rho dy gymorth iddynt  
a gad iddynt brofi dy allu iachael.

Gweddïwn dros dy Eglwys  
a thros gynulleidfaeoddy bobl ym mhob man:  
Gad i'r rhai sy'n caru'n Gwaredwr ei garu'n fwy  
ac ymroi i'w wasanaethu a'i glodfori. Amen.

Gweddï 'Ymbil dros y Byd' o'r gyfrol *Cymer fy Munudau*, sy'n cynnwys dros 400 o'i weddiâu gwreiddiol. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair; 592 tud, pris £16.99. Mae'r gyfrol ar gael yn y siopau erbyn hyn.



### Byw mewn Gobaith Merched yr Hen Destament Cyfres o 7 astudiaeth feiblaidd ar Zoom

Dydd Llun 7yh Medi 27/ Hydref 4,18 / Tachwedd 1,15,29 / Rhagfyr 13  
Dydd Gwener 1.30 yp Hydref 1,8,22 / Tachwedd 5,19 / Rhagfyr 3,17

Trefnir gan  
Is-bwyllgor y  
Chwiorydd

<https://us02web.zoom.us/j/83243383071> Meeting ID: 832 4338 3071 / ar y ffôn 0208 080 6592

S4C

**Sul, 3 Hydref – Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Lisa fydd yn cwrdd â Prydwen Elfed-Owens, gwraig arbennig iawn sy'n benderfynol o chwalu'r tabŵ a siarad yn gwbl agored a gonest am farwolaeth yn dilyn salwch meddwl a hunanladdiad ei thad. Cawn berfformiad teimladwy gan Ffion Emyr o'r geiriau 'Gwawr wedi hirnos' ar yr emyn-dôn Theodora.

BBC radio  
cymru

**Sul, 3 Hydref – Caniadaeth y Cysegr, 7:30yb a 4:30yp**  
Rhian Williams fydd yn edrych ar gyfraniad gwaith cyfansoddwyr clasurol i'n hemynyddiaeth

**Sul, 3 Hydref – Oedfa Radio Cymru, 12:00yp**  
Gwasanaeth yng ngofal Guto Prys ap Gwynfor, Llandysul

# Lle i enaid gael llonydd

## Ynys Enlli

Ers pan oeddwn yn blentyn 10 oed fe fûm yn gobeithio sawl gwaith cael teithio draw i ymweld ag Ynys Enlli, ond fe ddaeth fy mreuddwyd yn wir o'r diwedd yn ystod haf 2021!

Saif Ynys Enlli bron i ddwy filltir oddi ar benrhyn Llŷn ym Môr Iwerddon. Mae'r ynys wedi bod yn ganolfan grefyddol ers y 6ed ganrif. Sefydlodd brenhinoedd Llŷn a Sant Cadfan fynachdy yno ac fe adeiladwyd abaty Awstinaidd yno yn y 13eg ganrif ar sylfeini'r hen sefydliad Celtaidd. Roedd yr ynys yn gyrchfan bwysig i bererinion yn yr Oesoedd Canol. Credir bod Sant Deiniol a Sant Dyfrig wedi eu claddu yno, yn ogystal â llu o seintiau a phwysigion eraill dros y canrifoedd. Dinistriwyd yr abaty yng nghyfnod Harri VIII ond mae ei adfeilion i'w gweld o hyd.

Wedi taith 20 munud ar y cwch o Borth Meudwy mewn tywydd godidog a thwym a golygfeydd trawiadol o Fae Ceredigion, fe gyrhaeddodd yr ynys. Roedd yn rhaid i ni bacio'n syml ond gofalus cyn mynd i'r ynys. Er bod digon o ddŵr yfed yno, mae'n rhaid mynd â phopeth arall sydd ei angen gan nad oes llawer o nwyddau ar gael yno. Roedd yn rhaid pacio digon o fwyd am y cyfnod, a dim ond mynd â beth oedd wir ei angen arnom yn unig gan nad oedd llawer o le ar y cwch.

Roedd ffrynt y tŷ yn wynebu Iwerddon, gyda golygfa fendigedig o'r tir yn arwain at y môr a'r gorwel pell. Yr unig sŵn oedd sŵn y môr a bref ambell ddfad neu grawc aderyn yn y pellter. Yn wir, dyma un o'r pethau y bydda i wastad yn ei gofio am yr ynys, sef y tawelwch mwyaf bendigedig heb unrhyw aflonyddu o gwbl. Does dim signal ffôn na *wi-fi* ar yr ynys, dim siopau, dim traffig nac unrhyw fwrlwm. Roedd cyfle felly i ymlacio'n llwyr a chael 'detox' oddi wrth unrhyw fath o dechnoleg fodern. Doedd dim ots bellach beth oedd yr amser ar y cloc. Roedd diwrnodau ar Enlli yn teimlo'n dipyn hirach na diwrnodau prysur gartref, ac roedd hyn yn rhywbeth i'w groesawu.

Heb brysardeb bywyd arferol, roedd mwy o amser ar ein dwylo a chyfle i werthfawrogi pethau syml ond pwysig bywyd, sy'n aml yn cael eu colli'r dyddiau hyn. Roedd yna amser i wir siarad ac i drafod gyda'n gilydd,



Gyda diolch i Maldwyn Hughes a Chasgliad y Werin

amser i feddwl, amser i chwarae, ac amser i ddarllen. Cefais gyfle i dynnu lluniau o olygfeydd trawiadol yr ynys gyda fy nghamera, arsylwi ac enwi'r adar arbennig, mynd i nofio yn y môr yng nghwmni morloi'r ynys a neidio i'r môr oddi ar glogwyni. Roedd yn ddiddorol cyfri sawl gwahanol fath o bilipala oedd i'w gweld, mapio tirlun a mynyddoedd Wicklow, Iwerddon, yn y pellter, sylwi ar gychod pysgota, dringo coed ac enwi blodau, crwydro a darganfod pob rhan o'r ynys. Yn eironig iawn, o feddwl ein bod ar ynys anghysbell roedd cymaint o bethau i'w gwneud yno.

Un o fy hoff bethau oedd cerdded o amgylch adfeilion yr abaty ac ymweld â chapel yr ynys. Gellid ymweld â'r rhain unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos i fyfyrto, i weddio neu eistedd mewn tawelwch. Roedd ein bwthyn drws nesaf i'r adfeilion ac roeddem yn gallu gweld y capel o ffenest y tŷ. Dros fisoedd yr haf gwahoddir pregethwyr a ficeriaid i fod yn gaplaniaid ar yr ynys. Roedd gwasanaeth yn cael ei gynnal yn y capel ar y Sul a sesiwn o weddio a myfyrto bob nos am 9 o'r gloch yn adfeilion yr abaty. I mi'n bersonol roedd y rhain yn brofiadau ysbrydol ac arbennig iawn ac yn gyfle i brofi heddwch a llonyddwch yng ngwir ystyr y gair.

Fe fuom yn hynod o lwcus gyda'r tywydd yn ystod ein hymweliad. Roeddem yng nghanol tywydd poeth iawn ac felly fe gawsom y cyfle i wyllo machlud arbennig iawn bob nos. Un bore codon ni am 4 y bore er mwyn dringo Mynydd Enlli (taith o ryw 20 munud o ddrws cefn y tŷ i'r copa) i wyllo'r wawr. Profiad bythgofiadwy i mi a'r plant oedd gweld y niwl trwchus yn ymlwybro dros rannau o'r môr a mynyddoedd Eryri yn y pellter gyda sbectrw m o liwiau godidog yn yr awyr glir wrth i'r haul godi.

Fe dreuliais un prynhawn yn crwydro arddangosfeydd yr ynys. Yn adeilad yr Hen Ysgol mae arddangosfa ddiddorol a lluniau o hanes yr ynys. Yn hen ffermdy Cristin mae'r Wylfa Adar a Maes, ac yno mae warden yr Wylfa, ei wraig a'r mab yn byw. Yma ceir pob math o wybodaeth am fyd natur yr ynys.

Roedd y plant yn mwynhau crwydro pob cornel o'r ynys a nofio yn y môr. Creigiau yw arfordir yr ynys heblaw am un traeth bach, sef Traeth Solfach, gyda thywod caregog yn edrych allan ar Garreg yr Honwy lle mae degau o forloi'n ymgynnull ac yn byw. Roedd y plant yn mwynhau chwarae cardiau ac ambell gêm fwrdd gyda'r nos, a gêm o bêl-droed yn yr ardd neu bing-pong ar fwrdd y gegin yn ystod y dydd. Mae Pen Llŷn yn ardal 'awyr dywyll' swyddogol, hynny yw does dim llygredd golau'n effeithio ar yr awyr yn ystod y nos. Roedd y plant wrth eu bodd felly'n gweld miloedd o sêr na fyddem fel arfer yn eu gweld yng Nghaerfyrddin. Fe fuon ni'n lwcus hefyd i weld y Llwybr Llaethog ac ambell seren wib odidog.

Cafodd ein teulu bach ni brofiad a gwyliau bythgofiadwy ar Ynys Enlli'r haf hwn. Mae'n lle hynod iawn a does mo'i debyg yn unman arall: man ysbrydol, tawel sy'n bell o sŵn a sain y byd.

Ond i mi rhoch Ynys Enlli  
Lle mae heddw yn hawlio'r byd.  
Yno mae'r olygfa orau  
Sydd yn well na'r lleill i gyd.

Meleri Llwyd O'Leary

Talfyriad o erthygl a gyhoeddwyd yng nghylchgrawn Capel y Priorddy, Caerfyrddin. Ewch i <https://www.priorddy.org/papur/2021/medi> i'w darllen yn llawn

## A dyma fi draw dros y lli ...

Ar ddechrau tymor newydd yn y colegau cawn glywed gan Elin Bryn Williams fu'n gweithio i'r Universities and Colleges Christian Fellowship (UCCF), mudiad Cristnogol i fyfyrwyr, yng Nghymru wrth iddi hi gychwyn ar bennod newydd yn ei hanes yn gweithio gyda myfyrwyr yn Iwerddon. Diolch iddi am y llythyr hwn a'r anogaeth i weddio drosti a thros y gwaith gyda myfyrwyr.


Wel, annwyl ffrindiau, rydw i'n ysgrifennu atoch o'r Ynys Werdd, wedi cyrraedd ac wedi dod o hyd i gartref. Mae Duw yn ei ddarpariaeth wedi rhoi lle hyfryd i mi fyw yn Cregcarragh gyda gwartheg a cheffylau'n gymdogion dedwydd a chwmni i mi. Mae Cregcarragh ryw 15-20 munud o Galway ac yn lle handi iawn i mi deithio i Limerick, Sligo ac Athlone.

Mae dros fis bellach ers i mi adael Cymru fach ac mae'r hiraeth yn gafael, ond mae Duw yn gafael yn dynnach. Dydyn nhw ddim wedi bod yn wythnosau hawdd: mi ges i fy meigrain (migraine) cyntaf yma, ac wedyn sawl brathiad gan wybed rheibus Cork, oedd yn gofyn am ddsos go lew o benisilin i wella! Felly, er bod gadael gwlad a chartref yn anodd ar y coblyn, mae hi wedi bod yn hawdd iawn sylwi ar sut mae Duw wedi bod yn fy mendithio yma. Mi drefnodd fod cyswllt yma a lle i mi aros pan nad oedd gen i le i fyw. Yna, o fewn dyddiau, roedd y lle perffaith ar gael a landlord clên ofnadwy yn berchennog arno. Wedi hynny, mi ges i gyfle i ddod i adnabod gweddill tîm Christian Unions Ireland, wnaeth rhoi croeso cynnes iawn imi.

Beth sydd wedi bod yn gysur i mi drwy'r cyfan ydy gwybod, wel, os ydy Duw wedi fy ngalw yma i orllewin Iwerddon, mi fydd yn darparu beth sydd ei angen. Ac mae o, ac mi fydd o, yn parhau i wneud. Mae hi wedi bod yn braf gweld ei law arnaf dros y mudo, ac ella'i bod hi wedi bod yn haws gweld ei fendithion gan fy mod wedi colli fy holl gyffordduswydd.

### Equip South

Yn fy wythnos gyntaf hefo CUI aethom ar drip, o Ddilyn i Cork a diweddu yn Galway. Roeddem yn ymgynnull yn y dinasoedd yma i gynnig dysgeidiaeth a hyfforddiant i'r myfyrwyr cyn iddyn nhw ddechrau yn ôl yn y brifysgol.




Traeth ger Cork, cyn y gwybed rheibus

Bu'r dyddiau yma'n gyfnod hyfryd o anogaeth wrth weld y myfyrwyr wrth eu boddau'n dod yn ôl at ei gilydd a'u parodrwydd cyffrous i fynd ati i dystio dros Iesu yn eu colegau gwahanol ar hyd a lled y wlad.

Roedd criw llai yn Cork a Galway, ond roedd brwdfrydedd y myfyrwyr yno'n heintus ac roedd hi'n brydferth clywed eu gwerthfawrogiad o ddysgeidiaeth y diwrnod.

Gan fy mod i'n newydd sbon yn ystod wythnos yr Equip roeddwn i ychydig bach yn nerfus wrth ymuno â'r tîm. Ond y bore hwnnw roedd Eli (fy nyweddi) a fi'n darllen am fod yn rhan o gorff yr eglwys, ac roeddem yn myfyrio ar y ffaith bod gan bawb ei le. Cysurodd Duw fi fod ganddo'i le i mi yn y gwaith yma hefyd. A'm lle ar y diwrnod cyntaf ... tu ôl i sgrin yn edrych ar ôl y cyfrifiadur a'r sleids! Ddim fy lle arferol ond, diolch i Dduw, mi lwyddais i sicrhau bod pob sleid yn ymddangos ar yr amser cywir - cyfle da i ddysgu sgiliau newydd!

I'r rhai ohonoch sydd ddim yn adnabod Eli eto, dyma fo!



Rydym wedi dyweddio ers dros dri mis rŵan ac yn edrych ymlaen yn fawr i briodi ym mis Mehefin nesaf, gobeithio. Mae Eli wedi bod yn gymaint o fendith yn ystod y mudo ac wedi bod yn amyneddgar iawn drwy'r cyfan, hyd yn oed pan oeddwn yn crio wrth adael Cymru ac yn dweud: 'Eli, nid bwrw glaw mae hi. Mae Cymru yn crio oherwydd mod i'n gadael.'

Yn anffodus, pan gyrhaeddwn ni Iwerddon, roedd hi'n bwrw yma hefyd! A oedd Iwerddon yn crio fy mod i'n cyrraedd? Ta waeth am hynny! Y gobaith yw bydd Eli yn symud yma wedi i ni briodi, felly ga i ofyn i chi, plis, i ymuno â ni mewn gweddi y bydd Duw yn darparu swydd addas iddo yma.

### Pwyntiau Gweddi

- Diolch i Dduw am ei ddarpariaeth, lle i aros, lle i fyw a chroeso teulu'r ffydd yma.
- Diolch am dîm CUI a'i groeso cynnes.
- Diolch am y myfyrwyr brwd yma yn Iwerddon.
- Dros wneud cysylltiadau hefo'r Undebau Cristnogol. Mae gen i gyswllt da hefo Galway, ond hoffwn i gyfarfod y rhai yn Limerick a gweld a oes Cristnogion yn Athlone a Sligo.
- Dros y digwyddiadau ymestyn allan ar ddechrau tymor.
- Dros setlo yn y capel yma.
- Dros godi arian tuag at y swydd - mae gen i dipyn o ffordd i fynd i godi'r lleiafswm o £9,000 ar hyn o bryd - y bydd yna ddigon o ddarpariaeth.
- Na fydda i'n hiraethu gormod ac y bydd Duw yn helpu i mi deimlo'n gartrefol yma yn fuan.

Diolch yn fawr i chi am weddio dros y gwaith. Os hoffech chi gyfrannu'n ariannol tuag at y gwaith ceir dolen isod, neu anfonwch ebost ataf i er mwyn derbyn diweddariadau am y gwaith neu ffurflen gyfrannu. (Mae disgwyl i mi godi y lleiafswm o tua £9,000, felly byddai urhyw gyfraniad yn help mawr.)

### [Rhoi yn ariannol ar-lein](#)

Diolch eto a chofion cynnes yng Nghrist,

*Elin*  
Gweithiwr Christian Unions Ireland Connacht



## Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys

Fel ysgogiad i feddwl am natur ein heglwysi yn y cyfnod hwn o gynnull eto ac ailadeiladu, rhoddir yma'r penodau hynny o lyfr R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (1972), sy'n sôn am waith yr Ysbryd yn yr Eglwys. Bydd chwech ohonynt yn y gyfres.

### Rhif 3 – Yr Eglwys – Cymdeithas yr Ysbryd

Anfonwyd yr Ysbryd Glân gan y Crist esgynedig i dystio iddo, i argyhoeddi'r byd ac i gyfryngu ei weinidogaeth i'r ddynoliaeth. Ac wrth wneud y gwaith hwn y mae'r Ysbryd yn symud etholedigion Duw o dywyllwch i oleuni. Ymddengys rhwyg yn y byd. Ffurfir yr Eglwys ac un o'r pethau sy'n cydio ei haelodau wrth ei gilydd yw y gallant ddweud, "ni a ddiodwyd oll i un Ysbryd" (1 Corinthiaid 12:13). Nid oes neb yn credu yn Iesu Grist ond tan ddylanwad yr Ysbryd Glân, a chynhaliath gyson yr Ysbryd sy'n sicrhau ei fod yn parhau'n Gristion. Ond bod yn Gristion yw bod yng Nghrist. Nid criw o unigolion sy'n digwydd cytuno â delfrydau'r Arglwydd Iesu yw Cristnogion. Ac nid dod at ei gilydd y maent i ffrifio Eglwys er mwyn hyrwyddo'r delfrydau hynny. Trwy eu hundeb â Christ deuant yn aelodau o'i gorff, yn ddeiliaid yn ei deyrnas, yn blant yn nheulu Duw, yn ganghennau yn y Wir Winwydden. Dyna pam y dywed Morgan Llwyd, "Y sawl sydd yng Nghrist, y mae efe yn y wir eglwys hefyd." Nid trwy astudio ein delfrydau ni, neu ein dyheadau cymdeithasol ni, y deuir i ddeall natur yr Eglwys. Rhaid ei ddeall fel rhan o waith a Pherson yr Arglwydd Iesu.

Y mae un peth cwbl anhepgorol i wneud Eglwys – presenoldeb Iesu Grist a'i bobl. Fel hyn yr esboniodd y Piwritan Dr John Owen y gwirionedd:

Addawodd yr Arglwydd Iesu Grist yn ffyddlon fod yn bresennol gyda'i eglwys 'hyd ddiwedd y byd'. Hi yw ei deml a'i dabernacl, lle bydd yn trigo ac yn rhodio'n wastadol. A'r presenoldeb hwn o eiddo Crist sy'n gwneud yr eglwys yr hyn ydyw – cynulleidfa hanfodol wahanol i bob cymdeithas a chynulliad arall ymhlith dynion. Gadawer i ddynion ymfurfio'n ôl y drefn a fyynnir, yn ôl unrhyw reolau a threfniadau a roir yn yr Ysgrythur neu a ddarganfyddir ganddynt hwy eu hunain; gadawer iddynt honni gallu ac awdurdod yn ôl yr hawl a fynnant, eto, onid yw Crist yn bresennol gyda hwy, nid ydynt yn eglwys ac ni all yr holl alluoedd o dan y nef eu gwneud yn eglwys. ('Of Spiritual Gifts' yn *Works*, IV, 499)

Y mae'r datganiad mawreddog hwn yn chwalu ag un ergyd yr holl geisiadau o

eiddo dynion i gipio'r awenau o ddwylo'r Arglwydd Iesu a'u trosglwyddo i'w dwylo eu hunain. Y mae hefyd yn distrywio pob ymgais i ddarganfod hanfod yr eglwys mewn unrhyw nodwedd ym mywyd yr Eglwys, neu unrhyw swyddog neu sefydliad o'i heiddo. Ceidw Crist ei Arglwyddiaeth. Ceidw Crist ei ryddid. Mae'r Eglwys hithau'n bodoli trwy ffydd ym Mab Duw. Nid "pregethu a gweinyddu'r sacramentau" fel y mynnai'r Tadau Protestannaidd, nid bedyddio fel hyn ac fel arall, nid Cynulleidfaoliaeth na Phresbyteriaeth, nid olyniaeth apostolaidd nac esgobyddiaeth na chydabod Pab, nid bod ar restr swyddogol unrhyw gyfundeb nac enwad sy'n gwneud eglwys.

Ac y mae Iesu Grist yn bresennol trwy'r Ysbryd Glân. Duw'r Ysbryd Glân sy'n canoli ein sylw ar Dduw'r Mab. Yn ei Fab, nid yn yr Ysbryd Glân, y gwelodd Duw'n dda ei ddatguddio'i hun fel Gwaredwr i ni. Gwir bod yr Ysbryd Glân yn sefyll megis o'r tu cefn i ni ond y mae'n troi ein llygaid yn ddiwyro at Iesu Grist. Ac yn ein calonnau ni, yr Ysbryd Glân yw cynrychiolydd cyflawn yr Arglwydd Iesu (Ioan 14–16). Llithro oddi wrth y gwirionedd hwn y mae'r eglwysi sy'n mynnu pethau eraill yn gynrychiolwyr Crist. Myn yr Eglwys Gatholig fod y Pab yn "ficer" Crist ar y ddaear a phan osodir y goron driphlyg ar ei ben ddiwrnod ei orseddu fe'i hanerchir yn y gwasanaeth fel "Rheolwr y byd a Ficer ein Gwaredwr Iesu Grist". Perthynas agos i'r syniad hwn yw'r un a goleddir gan rai Anglicaniaid fod yr esgob wedi'i ordeinio gan yr Arglwydd Iesu "i weithredu nid yn unig yn ei enw ond yn ei Berson" fel y dywed Dom Gregory Dix (*The Apostolic Ministry* [1947], 303). Ond y mae dysgeidiaeth amlwg y Testament Newydd yn odidocach lawer na hyn. Trwy'r canrifoedd gweithreda'r Ysbryd Glân fel cynrychiolydd a lladmerydd Iesu Grist. Ac fe'i hanfonwyd "fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol" (Ioan 14:16) – ac aros gyda phawb sydd yng Nghrist y mae hynny'n ei olygu.

Yn y Testament Newydd pwysleisir fod yr holl gredinwyr yn cyfrannu o'r Ysbryd (1 Corinthiaid 12:13). A'r Ysbryd Glân sy'n parhau gweinidogaeth uniongyrchol Crist: "Eithr yr Arglwydd yw'r Ysbryd" (2 Corinthiaid 3:17). Nid yw Iesu wedi dirprwyo'i weinidogaeth i na phab

nac esgob na gweinidog na synod na Chwrdd Eglwys. Y mae'r Eglwys gyfan o ganlyniad yn wynebu'r Ysbryd Glân yntau fel Arglwydd. Ef sy'n arwain, Ef sy'n ei hanrhegu â'r doniau angenrheidiol i wneud y gwaith. A'i gwaith yw tystio i weinidogaeth achubol Iesu Grist. Cam-ddeall hanfodion yr Efengyl yw tybio fod yr Eglwys mewn unrhyw ffordd yn "barhad o'r Ymgawddoliad" neu'n cael ei hawdurdodi i *barhau* gweinidogaeth Iesu Grist. Y peth sy'n gwneud yr Efengyl yn Efengyl – hynny yw, yn newyddion da o lawenydd mawr – yw fod y gwaith achubol wedi'i orffen. Ac ni all neb barhau gwaith gorffenedig. Pan yw'r Eglwys Gatholig yn dysgu mai "enaidd yr Eglwys" yw'r Ysbryd Glân, yn ei donio â grasusau i barhau gweinidogaeth Crist, i ymarfer ei awdurdod, i'w ailaberthu o'r newydd yn feunyddiol yn yr offeren ar ei hallorau, y mae hi'n distrywio'r Efengyl. Ac mae hi'n cymryd i'w dwylo ei hun yr awdurdod sy'n eiddo Crist a'r Ysbryd Glân.

Ni ellir "parhau" gwaith gorffenedig Crist dros bechaduriaid. Ond fe ellir ei gymhwyso. Ai hyn ynteu y mae'r Eglwys yn ei wneud? Nage ddim! Dyma'n union swydd yr Ysbryd Glân. Nid gweinidog nac offeiriad na sacrament sy'n cymhwyso bendithion lawn Crist ond Duw ei hun trwy'r Ysbryd Glân. Beth ynteu yw lle'r Eglwys a'i gweinidogaeth? Cyhoeddi (1 Corinthiaid 2:4), coffâu (1 Corinthiaid 11:24), traddodi (1 Corinthiaid 15:3) a thystio (1 Corinthiaid 1:6) yw ei braint hi. A'r holl weithgarwch hwn yn cyfeirio at weinidogaeth uniongyrchol yr Arglwydd Iesu Grist ymhlith pechaduriaid. Efe – ac Efe'n unig – sy'n gweinidogaethu. Mwynhau'r weinidogaeth ddwyfol, byw arni a thystio iddi yr ydym ninnau.

Darlleniadau: 1 Corinthiaid 12:1–13; Ioan 13:1–17; Luc 11:9–13

Llyfrau:

G. S. Hendry, *The Holy Spirit in Christian Theology* (1957), pen. III; T. W. Manson, *The Church's Ministry* (1948), pen. I; John Owen, 'Of Spiritual Gifts', *Works* IV, 198–508; (gol.) K. E. Kirk, *The Apostolic Ministry* (1947), pen I a IV; H. Berkhof, *The Doctrine of the Holy Spirit*, 42–50; T. W. Manson, *Ministry and Priesthood* (1958), pen. I; G. A. Edwards, *Yr Athrawiaeth Gristionogol* (1953), pen. IX; D. Eirug Davies, *Arweiniad i Athrawiaeth Gristionogol* (1969), pen. VI; "Yr Offeiriad Cymreig", *Traethawd ar yr Olyniaeth Apostolaidd* (1869) – y safbwynt Anglicanaidd; William James, Manceinion, *Yr Eglwys* (Darlith Davies, 1897), pen. III; W. A. Visser't Hooft, *The Kingship of Christ* (1948), pen. IV; S. O. Tudor, *Beth yw Calfiniaeth?* (1957), pen. IV.

## Y Cymro gorau erioed?

Pwy, ddywedwch chi, yw'r Cymro gorau erioed? Richard Burton, Tom Jones ynteu Gareth Edwards? Neu beth am Dewi Sant, William Morgan a David Lloyd George?

Rydw i am awgrymu mai William Williams (1717–91), Pantycelyn, oedd y Cymro gorau erioed! Efallai y cytunwch chi â mi – neu beidio. Rhaid felly roi rhesymau dilys dros y dewis hwn.

Adnabyddwn William Williams yn bennaf oll fel emynydd – y Pêr Ganiedydd! Cyfansoddodd yn agos i fil o emynau, gan gynnwys rhai Saesneg. Cyhoeddodd ei emynau mewn wyth casgliad gwahanol rhwng 1744 ac 1787. Y casgliad cyntaf oedd *Aleluia* ym 1744 a'r olaf oedd *Rhai Hymnau Newyddion* ym 1787. Cyhoeddodd hefyd ddau gasgliad Saesneg o emynau yn ystod ei oes.

Canwyd yr emynau hyn yn y seiadau Methodistaidd a arweinai Pantycelyn ledled Cymru. Trafaeliodd ryw 150,000 o filltiroedd i gyd yn rhoi arweiniad clir a chadarn i'r seiadau hyn. Ac fe arweiniodd eu haelodau yn gall ac yn gytbwys.

Mae emynau Pantycelyn yn ymwneud ag athrawiaeth Feiblaidd a phrofiad ysbrydol fel ei gilydd. Yn wir, plethir y ddwy wedd yma'n gywraïn yn ei gilydd yn ei emynau. Maent o gymorth mawr i ni addoli Duw yn Iesu Grist trwy'r Ysbryd Glân ac i ddysgu diwinyddiaeth, heb yn wybod, bron, ein bod yn gwneud hynny.

Yn ogystal â'i emynau, ysgrifennodd Pantycelyn sawl peth arall mewn barddoniaeth a rhyddiaith. Yn eu plith y mae *Golwg ar Deyrnas Crist* (1756), *Pantheologia* (1762–78), *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus* (1764), *Cyfarwyddwr Priodas* (1777) a *Drws y Society Profiad* (1777). Ysgrifennodd yn agos i 90 o lyfrau a llyfrynau i gyd.

Mae *Golwg ar Deyrnas Crist* yn fynegiant campus gan Pantycelyn o'r gred Gristnogol fod popeth o dan reolaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Ef yw canolbwynt yr holl greadigaeth – ysbrydol a materol. Mae hanes y byd yn troi o gwmpas ei iachawdwriaeth Ef.

Ymgais lew i fwrw golwg ar grefyddau'r byd yw *Pantheologia*. Rhyfedd meddwl am wybodaeth eang Pantycelyn o'r crefyddau

hyn 'nôl yn y ddeunawfed ganrif. Dengys fod Crist yn unigryw yn erbyn y crefyddau hyn.

Yn ei waith *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus* mae Pantycelyn yn rhoi darlun dychmygol i ni o bererindod y Cristion yn y byd. Mae'n delio â rhagoriaethau ac anawsterau'r daith Gristnogol. Ffigur ffug yw Theomemphus, ond nid felly'r profiadau a ddisgrifir yn y gwaith.

Mae *Cyfarwyddwr Priodas* yn ymdrech lew i roi cyfarwyddyd i Gristnogion ar bwnc priodas. Gweithreda Pantycelyn yma fel rhyw fath o gwnselydd priodas ('marriage guidance counsellor'). Roedd ef ei hun yn briod â Mary (Francis) ac roedd wyth o blant ganddynt; felly ysgrifenna o brofiad personol.

Yn *Drws y Society Profiad* mae Pantycelyn yn rhoi cyfarwyddiadau i aelodau'r seiadau Cristnogol. Mewn cyfnod o fwrwm ysbrydol, roedd angen y fath gyfarwyddyd er mwyn cadw trefn yn y cyfarfodydd. Adlewyrchir doethineb Pantycelyn yn y gwaith hwn.

Wrth feddwl am weithiau Pantycelyn rhyfeddwn at yr holl weithiau a ddaeth o'i law. Ei emynau'n bennaf sydd wedi taro'r nodyn uchaf ym mywydau cenedlaethau o Gristnogion Cymru gan barhau i wneud felly heddiw yn ein cenedl. Oherwydd y rhesymau hyn i gyd, awgrymaf mai Pantycelyn yw'r Cymro gorau erioed.

Peter Davies

## Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth y Parchedig Gwynfryn T Rogers, Porthcawl, yn ddiweddar. Gwasanaethodd yng Nghymanfaoedd Dwyrain Morgannwg a Phenfro. Diolchwn am ei gyfraniad gwerthfawr i waith y Deyrnas ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i fab a'i ferch, Paul a Cerys, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Judith Morris  
Ysgrifennydd Cyffredinol UBC

## Penodiad newydd gan Undeb Bedyddwyr Cymru: Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol

Mae'n bleser gan Undeb Bedyddwyr Cymru gyhoeddi penodiad Mr Carwyn Graves, sydd wedi dechrau ar ei rôl newydd fel Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol yn ddiweddar.

Mae Carwyn yn byw yng Nghaerfyrddin gyda'i wraig a'i deulu, a bydd yn gadael ei rôl gyda Chyfieithwyr Beibl Wycliffe lle mae wedi cyflawni nifer o swyddi ers 2017. Ef yw is-gadeirydd MissionAssist a swyddog cyhoeddusrwydd Cymdeithas y Cymod.

Fel ieithydd, Cymraeg yw ei iaith gyntaf ac mae'n gyfforddus mewn Almaeneg, Ffrangeg a Saesneg ar ôl graddio o

Brifysgol Rhydychen gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Ieithoedd Modern. Os ydych chi eisiau gwybod am *Afalau Cymru*, mae Carwyn yn awdur ac yn awdurdod cyhoeddedig ar y pwnc – ac mae ganddo hefyd ardd lysiau drawiadol.

Mae'n aelod yn Eglwys Penuel, Caerfyrddin, ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r eglwysi a'r Cymanfaoedd i wynebu her cenhadaeth yma yng Nghymru. Mae Carwyn yn dilyn Menna Machreth ond bydd ffocws newydd yn cynnwys pwysigrwydd ein helpu i gyfathrebu'n fwy effeithiol mewn byd digidol. Dylid nodi nad yw rôl Carwyn yn cynnwys elfen o'r gwaith BMS.



Meddai Carwyn, 'Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at gael gweithio gydag eglwysi Bedyddiedig Cymru dros y blynyddoedd i ddod, ac yn enwedig at wasanaethu ochryn-ochr â chi i rannu'r "trysor mewn llestri pridd" sydd gyda ni.'

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Ffydd a gostyngeddwydd

Darlenniad: Salm 8

### Gweddi

Arglwydd Dduw, yr hwn a ddatguddiaist dy hun i ni fel creawdwr, cynhaliwr a gwaredwr, tyrd atom drwy dy Ysbryd Glân i'n llenwi drachefn gyda rhyfeddod ac addoliad a mawl. Drwy Iesu Grist, Amen.

Emyn 24: 'O cenwch fawl i'r Arglwydd'

Darlenniad: Marc 10:13-16

Bydd pob un ohonom sydd wedi tyfu yn ffydd yr Arglwydd Iesu Grist ac yn sain yr efengyl yn rhannu un profiad sy'n gyffredin i ni i gyd. Bydd gan bob un ohonom rywun y gallwn ddiolch i Dduw amdanynt, am rywun a roddodd o'u hamser a'u hamynedd i baratoi gwersi ysgol Sul a'n dysgu am Iesu Grist.

Ac ni allaf feddwl heb ddiolchgarwch am ein capel bach ni ym Methesda, Llanrhaeadr Y.M., a'r gynulleidfa fechan oedd yn addoli yno. Dwi'n ddiolchgar fod rhywrai wedi fy nysgu i ganu:

Cael bod yn fore dan yr iau  
sydd ganmil gwell na phleser gau,  
mae ffyrdd doethineb oll i gyd  
yn gysur ac yn heddw o hyd.

A gwerthfawrogaf heddiw'r fraint o gael canu:

O boed i'm dreulio yn ddi-goll  
o dan iau Crist fy mebyd oll;  
mae'r hwn a'm prynodd ar y groes  
yn deilwng o bob awr o'm hoes.

Tristwch o'r mwyaf yw meddwl bod yna genedlaethau o blant yng Nghymru na chawsant erioed glywed mor 'Hoff yw'r Iesu o blant bychain ...'

### Diglo

Pan drown at yr adnodau, gwelwn fod Iesu 'yn mynd yn ddi' wrth ei ddisgyblion am eu bod yn gosod rhwystrau neu'n atal y plant bychain rhag nesu ato.

Efallai fod y disgyblion am warchod Iesu rhag jôcs sâl plant bychain, ac yntau wedi blino'n lân! Efallai eu bod wedi tybied bod y plant bychain yn ddbwys yn ei olwg pan oedd pwysigion y Sanhedrin, neu'r Phariseaid neu'r tyrfaoedd yn gwasgu o'i gwmpas drwy'r amser. Efallai eu bod wedi meddwl na fyddai plant bychain yn medru deall, nac amgyffred, y pethau dyfnion yr oedd Iesu'n eu dysgu iddynt.

Beth bynnag oedd eu 'rhesymau', mae'n amlwg nad oedd ei ddisgyblion, er iddynt dreulio cymaint o amser yn ei gwmi, wedi adnabod gras ac amynedd di-ben-draw yr Arglwydd Iesu Grist. Onid oedd ganddo amser i siarad â gwraig o Samaria, neu ymgomio â chanwriaid anghenus? Ac nid oedd tlodion daear yn rhy isel iddo alaru drostynt am eu bod fel defaid heb fugail.

### Hosanna

Pan fudwyd 'Hosanna' y dorf, yn fuan wedi'r orymdaith i mewn i'r ddinas ar 'Sul y Blodau', parhaodd y 'plant bychain' i ganu eu Hosanna a'u croeso i Fab Dafydd. A phan ddigiodd yr awdurdodau crefyddol at eu mawl, atebodd Iesu hwy gan gyfeirio at Salm 8, gan ddweud, 'Onid ydych erioed wedi darllen: "O enau babanod a phlant sugno y darperaist fawl i ti dy hun"?' (Mathew 21:16) Gall plentyn bychan gyfrannu i fawl y nef!

### Ergyd wahanol

Ydy, mae'n dda cael dweud wrth ein plant: 'Hoff yw'r Iesu'. Ond efallai nad dyna ergyd yr adnodau yma.

O fwrw golwg sydyn yn ôl dros amrediad efengyl Marc, fe welwn sut yr oedd adnabod Iesu fel Meseia Duw wedi arwain at ddryswch pan geisiodd Iesu egluro mai llwybr o ddioddefaint, marwolaeth ac atgyfodiad oedd y daith a'i hwynebai bellach.

Bu'r disgyblion yn dadlau am bwy oedd y mwyaf, a phwy oedd y pwysicaf yn eu plith? Roeddynt wedi ceisio gwahardd rhywun nad oedd 'yn ein dilyn ni' rhag llefaru yn enw Iesu. Cawsant ddeall hefyd fod i hyd yn oed y weithred leiaf arwyddocâd a gwerth.

Ar ryw olwg dychwelyd at thema 'gostyngeddwydd' a natur hanfodol ffydd mae Iesu yn yr adran hon. Disgrifio y mae agwedd meddwl a chalon y rhai sy'n gosod eu hunain o dan deyrnasiad Duw.

### 'I rai fel hwy'

Nid dweud y mae Iesu ein bod i fod yn blentynnaidd yn ein dealltwriaeth na'n hymarwedd. Ac eto, mae'n amlwg bod yna ryw beth mewn plentyn bychan sy'n patrymu hanfod a natur ffydd i ni.

Er enghraifft:

- Fe wŷr y plentyn lleiaf nad ei benderfyniad ei hun a ddaeth ag ef/hi i fyw yn y teulu arbennig hwn. Rhodd yw eu bywyd. Yn yr un modd daw pob credadun i ddeall eu bod hwythau hefyd

wedi eu geni o'r newydd i obaith bywiol yn Iesu Grist drwy'r Ysbryd Glân. (1 Pedr 1:3 ymlaen)

- Y mae plentyn, mewn cartref arferol, yn gwybod ei fod neu ei bod wedi ei charu. Yn yr un modd, bydd pob Cristion yn dwyn o'i fewn dystiolaeth o'r Ysbryd Glân sy'n peri i ni lefain ein rhyfeddod, 'Abba! Dad'. (Rhufeiniaid 8)

- Er nad oes gan blentyn bychan mo'r eirfa, na'r ddealltwriaeth, na'r cysyniadau deallusol angenrheidiol i ddisgrifio'n llawn ei brofiad, mae'n gwybod cymaint â hyn: nad ef/hi roddodd na darparu'r bwyd oedd yn ei nerthu. Ni all newid ei glwt ei hun, na golchi ei ddillad ei hun, nac ymolchi ei hun. Rhywbeth a wneir iddynt a throstynt yw'r pethau hyn. Daw'r Cristion cryfaf at ei Dad nefol gan lawn sylweddoli mai trwy ddarpariaeth Duw y daw bara'r bywyd iddynt a'r glanhad drwy Iesu Grist.

- A'r hyn sydd dlysach, efallai, na'r holl bethau hyn yw edrychiad plentyn bach wrth iddynt syllu ar eu rhieni, ar yr olwg o ymddiriedaeth, wrth iddynt orffwyso, wrth iddynt dderbyn cariad ei rieni.

Mor elfennol yw'r pethau hyn. Mor elfennol, mor syml yw hyn. Nid yw'n gofyn am ddealltwriaeth ddofn: 'Yn wir, rwy'n dweud wrthy,chw, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi.'

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, mor aml rydyn ni'n ymladd yn erbyn syllder gostyngedig dy gariad a'th ras. Arglwydd, byddai'n well gennym drafod, neu gwestiynu, neu ymgodymu â rhyw syniadau astrus er mwyn i ni eu gwrthod am eu bod yn rhy ddwfn, yn rhy astrus, yn rhy anodd. Ac eto, gwingo yr ydym ni heddiw am fod dy air mor syml. Ac yn ei syllder mae mor ddwfn ac mor heriol. Arglwydd, trwy dy ras, caniatâ i ninnau ddyfod atat fel rhai bychain.

Arglwydd, cyflwynwn i ti blant ein teuluoedd, ein broydd, ein cenedl, ein byd. Ein dymuniad yw y cânt eu cadw rhag cam, rhag niwed. Gweddiwn hefyd dros wasanaeth plant ac ieuencid eglwys Cymru a thros waith Coleg y Bala. Arglwydd, tosturia wrthym.

### Gweddi'r Arglwydd

Emyn 349: 'Fe rodiai Iesu un prynhawn'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)